

Taflen waith: **Meddygon, deintyddion a nyrsys yng Nghymru oedd yn ffoaduriaid Iddewig**

TASG 1

a) Darllenwch y wybodaeth am erledigaeth meddygon a deintyddion Iddewig gan y Natsïaid yn y 1930au:

Daeth y Natsïaid i rym ym mis Ionawr 1933 ac yn fuan dechreuon osod cyfyngiadau ar Iddewon yn y proffesiwn meddygol; erbyn mis Ebrill, roedd meddygon Iddewig wedi'u heithrio o'r rhaglen yswiriant iechyd cyhoeddus ac erbyn yr haf cawsant gyfarwyddyd i beidio â chydweithio â'u cydweithwyr nad oeddent yn Iddewon.

O fewn blwyddyn, cafodd dros 2,600 o feddygon Iddewig eu diswyddo ac ar ôl Deddfau Nuremberg 1935, gwaharddwyd Iddewon rhag cymhwyso fel meddygon neu ddeintyddion newydd. Ym mis Gorffennaf 1938, gwaharddwyd nhw rhag cael cleifion 'Aryaidd' ac ym mis Medi 1938 cawsant eu diarddel o'r proffesiwn yn llwyr; a hwythau'n methu gweithio, penderfynodd llawer ymfudo.

b) Gan weithio mewn parau neu'n unigol, trefnwch y digwyddiadau sy'n ymwneud â'r erledigaeth mewn trefn gronolegol:

Meddygon Iddewig yn cael eu gwahardd rhag cael cleifion 'Aryaidd'.

Meddygon Iddewig yn cael eu diarddel o'r rhaglen yswiriant iechyd cyhoeddus.

Meddygon/deintyddion Iddewig yn cael eu diarddel o'r proffesiwn.

Natsïaid yn dod i rym.

Cydweithrediad rhwng meddygon Iddewig a rhai nad oedd yn Iddewig yn cael ei wahardd.

Iddewon yn cael eu gwahardd rhag cymhwyso fel meddygon neu ddeintyddion newydd.

TASG 2

a) Darllenwch fywgraffiad byr o Josephine Bruegel:

Ganed Josephine Bruegel yn 1914 yn Stráž yn yr Ymerodraeth Awstro-Hwngari (y Weriniaeth Tsiec heddiw). Myfyriwr meddygol oedd hi ym Mhrâg pan heidiodd yr Almaenwyr i Tsiecoslofacia. Ffodd i Brydain, lle bu'n gweithio fel nyrs yn Llundain cyn cael ei symud i Gaerdydd ym 1944. Ar ôl y rhyfel, symudodd hi a'i gŵr yn ôl i Tsiecoslofacia, ond dychwelon i Brydain ar ôl i'r Comiwnyddion oresgyn ei mamwlad ym 1948. Parhaodd i ymarfer meddygaeth ac roedd yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol. Bu farw yn 2005.

b) [Gwrandewch ar glip sain o Josephine yn siarad am gymhwyso ar gyfer ei 'MD Tsiecoslofacia' tra roedd hi ym Mhrydain.](#)

c) Gan weithio mewn parau neu'n unigol, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam fod llywodraeth Tsiecoslofacia wedi'i lleoli yn Llundain ym 1941?

- Pam y gallai Josephine fod eisiau i'w gradd fod yn ddilys yn Tsiecoslofacia?
- A fydddech chi eisiau dychwelyd i'ch mamwlad pe baech chi'n ffoadur?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

TASG 3

a) Darllenwch am yr anawsterau a gafodd meddygon a deintyddion Iddewig fel ffoaduriaid yn y DU:

Amcangyfrifir bod 1,200 o feddygon, Iddewon yn bennaf, wedi cyrraedd Prydain o'r Almaen ac Awstria rhwng 1933 a 1939. Fodd bynnag, oherwydd amharoddrwydd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, y Cyngor Nyrsio Cyffredinol a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain i gydnabod eu cymwysterau, bu'n rhaid iddynt astudio a phasio gradd arholiad Prydeinig pellach.

Sefydlodd Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru 'gynllun hyfforddi arbennig ar gyfer ffoaduriaid' a chofrestrwyd 12 o fyfyrwyr Almaenig yma rhwng 1933 a 1934; ym 1938-39, ymunodd saith o Awstria a 15 o Tsiecoslofacia â nhw.

Un o'r rhain oedd Alfred Feiner, ffoadur Iddewig o Fienna, a fu'n gweithio fel meddyg teulu ym Mhontypridd rhwng 1941 a 1977. Bu gwraig Alfred, Herta, yn gweithio fel cogydd a gwraig cadw tŷ er mwyn galluogi Albert i gwblhau ei gymwysterau. Yn ôl ysgrif goffa Herta, bu'n rhaid iddyn nhw oresgyn "llawer iawn o amheuaeth a gelyniaeth" ym Mhontypridd, ond yn y pen draw "ennill parch ac edmygedd y boblogaeth leol".¹

Roedd deintyddion o siroedd eraill yn cael eu rheoli'n llymach fyth, ond, yn dilyn adolygiad ym 1938, llaciwyd y rheolau oedd yn eu cyfyngu'n ddifrifol rhag ymarfer yn y DU a chaniatawyd i 40 o ddeintyddion a oedd yn ffoaduriaid o Awstria ddod i mewn i'r DU; un o'r rhain oedd Jacques Kurer, a ailhyfforddodd ym Manceinion yn 1939 ac agor practis yno. Ym 1941, bomiwyd cartref y teulu, a

¹ 'Ysgrif goffa: Herta Feiner', yn *AJR Information*, Mawrth 1977, t. 12 https://ajr.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/1977_march.pdf [cyrchwyd 28 Gorffennaf 2022].

chawsant eu symud i Landudno, lle agorodd Jacques bractis arall, yr oedd ei safon uchel yn boblogaidd ymhlith y boblogaeth leol. Symudodd y teulu yn ôl i Fanceinion yn 1944.



Jacques Kurer.

Llun trwy garedigrwydd Peter Kurer.

b) Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, ystyriwch a thrafodwch:

- Pa anawsterau a gafodd meddygon, deintyddion a nyrsys Iddewig fel ffoaduriaid yn y DU?
- Pa anawsterau y gallai ffoaduriaid eu hwynebu wrth ailhyfforddi?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....